# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 26 Hydref 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.
Diolchwyd i'r Clerc am edrych i mewn i'r posibilrwydd o cynnal cyfarfod hybrid. Cytunwyd bydd y Clerc yn archebu meicroffon a 'speaker' erbyn y cyfarfod nesaf, ac yn mynd i rhoid cynnig ar gyfarfod hybrid ym mis Tachwedd.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Dyfrig Jones ac Einir Williams.

**2. Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda, Heddlu Gogledd Cymru**
Croesawyd Dewi Davies i'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad byr ar rhai o'r materion yn yr ardal, yn cynnwys defnydd o'r sustem CCTV newydd ar y Stryd Fawr. Nodwyd fod yr sustem newydd wedi bod yn adnodd werthfawr iawn i'r heddlu yn barod, ond nid oes ganddynt fynediad i'r sustem yn yr orsaf ym Methesda. Y Clerc i ddanfon manylion Steven Edwards, Cyngor Gwynedd i weld os oes modd iddynt gael mynediad i'r sustem. Diolchwyd i Dewi am fynychu'r cyfarfod.

**3. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**4. Materion Brys**
**4.1 Cytundeb Lefel Gwasanaeth CCTV –** Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i arwyddo'r cytundeb ar ran y Cyngor Cymuned.
**4.2 Problemau parcio ger Cae Gas –** Nodwyd fod llawer o broblemau gyda parcio ger y datblygiad newydd dros ffordd Cae Gas. Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi codi'r mater yma gyda NWTRA, ond yn anffodus mater i'r heddlu yw hyn. Mae ganddynt berffaith hawl i barcio ar y  ffordd, ond ddim ar y palmant. Penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu hefo'r Heddlu i godi'r mater.

**5. Cofnodion**
Adroddwyd fod Cyng. Linda Brown i lawr ar y cofnodion yn bresennol ac yn absennol yn y cyfarfod diwethaf, y Clerc i dynnu enw'r Cynghorydd oddi ar y rhestr presennol. Yn dilyn yr addasiad hwn, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 Lloches Bws Lon Newydd –** Adroddwyd fod ychydig o'r gwaith wedi gael ei gwblhau, ond fod yr contractwr wedi gael darnau anghywir gan y cwmni lle archebwyd y lloches. Nodwyd fod y contractwr yn disgwyl am y darnau cywir cyn cwblhau'r gwaith – ar y gweill.
**6.2 Llwybr Parc Meurig –** Kehoe Countryside wedi dod yn ôl hefo pris, y Clerc i gael 2 pris arall. Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, y clerc wedi danfon les ddrafft allan i'r grwp ffocws – disgwyl am sylwadau.
**6.3 CCTV Meysydd Parcio –**Y Cyng. Rheinallt Puw wedi bod mewn cysylltiad gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn a gosod camerau yn meysydd parcio Cae Star a Pantdreiniog. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn dyfynbris am y camerau ychwanegol, ac wedi danfon nhw ymlaen i'r uwch reolwyr – ar y gweill.
**6.4 Cais i osod lluniau yn y Gorffwysfan –** Nodwyd fod y lluniau mewn sylw yn swyddfa Partneriaeth Ogwen ar hyn o bryd – caniatawyd i rhoi y lluniau i fyny, y Clerc i drefnu hefo gofalwr Partneriaeth Ogwen.
**6.5**. **Maes parcio wrth y Sior, Carneddi – cais i ail beintio y llinellau –** Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau - ar y gweill.
**6.6 Jenny Jones – Japanese Knotweed wrth Bont Twr –** Penderfynwyd y bydd y Clerc yn danfon llythyr at perchennog y tir, sef Zip World – dim diweddariad hyd yn hyn.
**6.7 Kirsty Roberts/Andrew Gregson – Ymholiad PT 2309 2798 – Parcio Allt Penybryn a Bryn Caseg –** Penderfynwyd bydd y Clerc yn holi y Cyng. Einir Williams am y ceisiadau ym Mhryn Caseg, ac yn dilyn trafodaeth, mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais am linellau melyn yn ngwaelod Allt Penybryn.

**7. Toriadau Gwair**
Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi os oes modd talu am toriadau ychwanegol ar ochr yr A5 – cytunwyd bydd y Clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am trefn toriadau llefydd fel Bangor, Caernarfon ayyb, ac hefyd i holi Clerc Cyngor Pentir am eu trefniadau nhw ochrau Penrhosgarnedd.

**8. Cyfyngiadau Parcio Ffordd Llwyn Bleddyn –** Adroddwyd fod aelodau ward Rachub wedi cyfarfod ar y safle. Nodwyd fod y cais am y llinellau wedi gael ei wneud gan y Cyngor Cymuned ers 2021. Derbyniwyd deiseb drwy ddwylo Cyng. Paul Rowlinson gan drigolion Llwyn Bleddyn i ddiddymu'r llinellau oherwydd problemau gyda diffyg parcio. Roedd barn cymysg ymysg yr aelodau, ac yn dilyn pleidlais, penderfynwyd cefnogi cais trigolion Llwyn Bleddyn i diddymu'r llinellau melyn. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**9. Mabwysiadwy dogfennau –** Cylchredwyd y dogfennau at yr aelodau cyn y cyfarfod.
**9.1 Rheolau Sefydlog** – Penderfynwyd mabwysiadwy'r dogfen hwn.
**9.2 Rheoliadau Ariannol** – Penderfynwyd mabwysiadwy'r dogfen hwn.

**10. Goleuadau Nadolig**
Adroddwyd fod y Clerc wedi cynnal cyfarfod gyda'r swyddogion gwaith stryd, a cadarnhawyd eu bod am cynnal treial o'r goleuadau newydd (goleuadau sydd i'w osod yn nghanol y Stryd) wythnos nesaf. Mae'r Clerc hefyd wedi holi os oes modd rhoid yr hen 'rope lights' ar y polion.

**11. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc heb gael amser i drefnu cyfarod ar y safle gyda'r perchennog. Y Clerc i drefnu hyn cyn gynted a phosib.

**12. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Hydref 2023'
**12.1 Prosiect Llechi Cymru – Arolwg Cymunedau Llechi –** pawb i gwblhau'r holiadur ac i ddanfon allan at cysylltiadau eraill.
**12.2 Un Llais Cymru – Adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref –** Nodwyd fod y Clerc wedi cwblhau'r holiadur, cytunwyd y byddai'r aelodau yn cwblhau'r holiadur fel unigolion. Yn sgil hwn, penderfynwyd y bydd y Clerc yn rhoid crynodeb o'r cyfarfodydd a'i rhoi yn Llais Ogwan yn fisol. Hefyd, cytunwyd bydd y Clerc yn rhoi copi o'r cofnodion yn y Llyfrgell.
**12.3 Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024 –** Cynghorwyr i ddanfon unrhyw sylwadau erbyn 8 Rhagfyr 2023.
**12.4 Senedd Cymru – Ymgynghoriad: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft –** Danfon unrhyw sylwadau erbyn 30 Tachwedd.
**12.5 Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd – Cae Gwaun y Gwiail, Gerlan –** Adroddwyd fod plant dal yn defnyddio'r cae pel droed, felly mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i Gyngor Gwynedd adnewyddu'r les gyda Stad Penrhyn ac i gwblhau yr hyn sy'n ofynnol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion y cwmni yswiriant.
**12.6 Cyng. Rheinallt Puw, Clwb Ieuenctid Bethesda –** Nodwyd fod y Clwb Ieuenctid wedi nodi ei siom eu bod ddim yn gael defnydd pwrpasol o lawr uchaf Cefnfaes fel yr oedd yn y gorffennol, ond yn anffodus mae'r adeilad a'i ddefnydd wedi newid yn sylweddol ers i Barrtneriaeth Ogwen cymeryd y les. Y Clerc i gysylltu a Partneriaeth Ogwen i ofyn iddynt os oes modd i'r Clwb Ieuenctid defnyddio'r llawr uchaf trwy'r adeg.

**13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill |
| **C23/0547/13/LL**<br>Spar Stores, High Street, Bethesda, LL57 3AR | Creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0729/13/LL**<br>Bron Arfon, Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub | Trosi adeilad allanol yn 1rh. Uned Gosod Gwyliau ynghyd â phob Datblygiad Cysylltiedig arall |

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. Mae'r Cyngor ychydig yn bryderus hefo'r ffaith ei fod yn dy i dwristiaid a'r effaith mae'n gael ar bobl leol o ran hawlio tai fforddiadwy a prisiau'r farchnad tai lleol. Rydym ddim yn meddwl bod y datblygiad am gael effaith sylweddol oherwydd ei fod i weld ar dir preifat sydd weld drws nesaf i dy'r perchnogion ac felly efallai nad ydio'n addas ar gyfer datblygiad ty i bobl leol. Gyda hyn mewn meddwl, ydio'n bosib gofyn i'r perchnogion / datblygwyr sut mae nhw'n mynd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a busnesau lleol i'r twristiaid fyddai'n aros yna er mwyn sicrhau bod na rhyw fath o fudd cymunedol i'w menter? Y datblygiad i ddefnyddio'r 'run mynediad a Bron Arfon, a ddim i rannu mynediad stad Llwyn Bedw.

**14. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---:|
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £126.73 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £257.41 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £77.11 |
| Cyngor Gwynedd | Cyfraniad at gwasanaeth CCTV | £5000.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £26,179.22 |
| John Wyn Jones | Cyflog Medi | £364.00 |
| CThEM | TWE Medi | £91.00 |